



# Etholiadau'r Senedd 2021: Maniffesto

Ebrill 2021

Mae cyfadrannau gofal iechyd Prifysgolion wedi bod yn allweddol i ymateb y wlad i'r pandemig. Maent wedi parhau yn eu hymdrechion i sicrhau bod gan Gymru ddigon o nyrsys, bydwragedd, a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill yn y maes sydd â'r sgiliau a'r wybodaeth gywir i fynd i'r afael â heriau iechyd y boblogaeth ac arwain arloesedd mewn ymarfer clinigol. Maent wedi cydweithio â'r GIG i ddefnyddio miloedd o fyfyrwyr gofal iechyd a staff academaidd i ehangu'r gweithlu, wedi darparu hyfforddiant i uwchsgilio staff presennol y GIG ac wedi cynnig cyfleusterau ac offer i wasanaethau'r GIG. Mae ymchwil gofal iechyd mewn prifysgolion wedi bod yn allweddol i lywio ein hymateb parhaus i Covid-19.

Rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru barhau i weithio'n agos gyda'r sector addysg uwch mewn gofal iechyd i'w helpu i gyflawni ei genhadaeth ddinesig i gefnogi cymunedau lleol a rhanbarthol wrth i ni ddod allan o'r pandemig, gan dyfu a siapio dyfodol y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

## Key messages

**Rydym yn galw ar y Llywodraeth nesaf i Gymru i wneud y canlynol:**

- **Darparu cyllid sefydlog a chynaliadwy ar gyfer ein disgyblaethau**
- **Sicrhau bod myfyrwyr gofal iechyd yn cael cefnogaeth ar gyfer eu lles a chymorth ariannol digonol, gan gynnwys drwy barhau â Bwrsariaeth GIG Cymru**
- **Darparu cyllid strategol ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus**
- **Buddsoddi mewn addysgu gofal iechyd, ymchwil a phartneriaethau rhyngwladol**

## Darparu cyllid cynaliadwy ar gyfer ein disgyblaethau

Mae cyrsiau nyrsio, bydweigiaeth a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill yn y maes yn fwy costus i'w darparu na rhaglenni gradd prifysgol nodweddiadol. Mae angen sefydlogrwydd a sicrwydd ar brifysgolion i fuddsoddi ar gyfer y dyfodol. Rhaid talu costau llawn addysgu gweithwyr gofal iechyd proffesiynol er mwyn sicrhau cynaliadwyedd ac ansawdd yr addysg gofal iechyd. Dylai Llywodraeth Cymru gynyddu'r gyfradd y caiff rhaglenni gofal iechyd eu hariannu i ddiwallu anghenion addysg.

Mae'r pandemig wedi gweddwid y broses o ddarparu gofal iechyd gyda mwy o gleifion yn defnyddio gwasanaethau o bell. Mae angen i Lywodraeth Cymru ystyried y defnydd cynyddol o dechnoleg mewn gofal iechyd a buddsoddi mewn isadeiledd a'r offer angenrheidiol sydd ei angen mewn addysg uwch i ddarparu lleoliadau efelychiad digidol gwell er mwyn cynhyrchu gweithlu gofal iechyd yn y dyfodol fydd mewn gwell sefyllfa i ddarparu gwasanaethau. Yn ddiweddar, cyhoeddodd Lloegr fuddsoddiad o £10m mewn adnoddau efelychu ar gyfer cyfadrannau gofal iechyd, ac mae'r Alban wedi ymrwymo i £3.8m ar gyfer technoleg arloesol.



## Sicrhau cefnogaeth ar gyfer lles myfyrwyr a chymorth ariannol



Yng Nghymru, mae prifysgolion a darpar fyfyrwyr angen sicrwydd o ran trefniadau cefnogi myfyrwyr ar gyfer yr hirdymor fel bo prifysgolion ac ymgeiswyr yn gallu cynllunio. Dylai myfyrwyr gofal iechyd allu cael mynediad i'r pecyn cymorth cynhaliadaeth safonol trwy Gyllid Myfyrwyr Cymru a Bwrsari GIG i dalu ffioedd dysgu'n llawn yn ogystal â chyllid ychwanegol ar gyfer costau sy'n gysylltiedig â threuliau lleoliadau clinigol (yn amodol ar gyfnod cyflogaeth ar ôl cymhwyso). Byddai hyn yn cydnabod natur unigryw'r cyrsiau hyn a'u pwysigrwydd i ddyfodol y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol. Byddai cael mynediad i'r ddwy ffynhonnell ariannu yn rhoi mwy o gefnogaeth ar gyfer costau byw o ddydd i ddydd.

Ers dechrau'r pandemig, mae myfyrwyr gofal iechyd wedi chwarae rhan allweddol yn ymateb i Covid-19. Yng ngwanwyn 2020, defnyddiwyd mwy na 2,000 o fyfyrwyr gofal iechyd i gefnogi gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod myfyrwyr gofal iechyd yn cael mynediad parhaus at wasanaethau iechyd meddwl digonol wedi'u teilwra i'w anghenion. Bydd hyn yn cefnogi myfyrwyr i gwblhau eu rhaglenni a chychwyn gyrfa werth chweil ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.

## Darparu cyllid strategol ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus



Rhaid i Lywodraeth Cymru ddarparu cyllid parhaus a strategol i'r gweithlu presennol ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus i gefnogi'r gwaith o wella gwasanaethau a chadw staff yn y proffesiwn. Mae hyn yn bwysicach oherwydd y

pandemig a newidiadau diweddar i safonau rheoleiddio hyfedredd, sydd wedi codi'r safon ar yr hyn a ddisgwyllir gan nyrsys a bydwragedd.

Byddai ehangu addysg a buddsoddiad ar lefel Meistr mewn addysg ôl-raddedig a llwybrau dysgu hyblyg yn creu gweithlu gofal iechyd sy'n fwy medrus ac yn gallu ymateb yn well i ofynion iechyd y dyfodol a'r newid yn y tirlun gofal

## Buddsoddi mewn partneriaethau dysgu ac ymchwil byd-eang



Prifysgolion sy'n sbarduno allbynnau ymchwil ac arloesedd wrth ddarparu gofal iechyd. Mae angen i ni gryfhau'r gweithlu academiaidd er mwyn addysgu gweithwyr proffesiynol y dyfodol. Golyga hyn bod angen buddsoddiad digonol mewn cymwysterau dysgu a chyfleoedd ymchwil ar gyfer y gweithlu ehangach. Bydd hyn yn arwain at gynnydd mewn cynaliadwyedd staffio academiaidd a gyrfaoedd academiaidd clinigol fel ei gilydd.

Mae angen i Lywodraeth Cymru gynyddu capasiti ymchwil nyrsio, bydwreigiaeth a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill yn y maes a buddsoddi mewn cyllid ar gyfer ymchwil glinigol i wella ansawdd ac effeithlonrwydd y gofal a ddarperir. Dylai hefyd weithredu argymhelliad Adolygiad Reid i gynyddu gwelededd a dylanwad ymchwil Cymru a galluogi ymchwilwyr Cymru i ddenu cyllid o'r tu allan i Gymru.

Rydym yn croesawu'r cynlluniau ar gyfer Rhaglen Cyfnewid Dysgu Rhyngwladol i gymryd lle Erasmus+ ar gyfer Cymru. Dylid rhoi blaenoriaeth i fyfyrwyr, staff academiaidd ac ymchwil iechyd rhyngwladol a arweinir gan Gymru er mwyn elwa o'r cynigion hyn.

## Amdanom ni

Mae Cyngor Deoniaid Iechyd Cymru yn cynrychioli 9 prifysgol yng Nghymru sy'n ymwneud ag addysg ac ymchwil ar gyfer nyrsio, bydwreigiaeth a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill yn y maes. Mae ein haelod- sefydliadau yn cydweithio â chynllunwyr polisi i helpu i lunio addysg ac ymchwil gweithlu gofal iechyd Cymru yn y dyfodol.



## For more information contact:

Anji Kadam, Policy Officer, Council of Deans of Health, [Anji.Kadam@cod-health.ac.uk](mailto:Anji.Kadam@cod-health.ac.uk)